# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 3

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

## PENNOD 4

YMHOLIADAU ACC

*Hysbysiad a chwmpas ymholiad*

### 43 Hysbysiad ymholiad

(1) Caiff ACC wneud ymholiad ynghylch ffurflen dreth os yw’n dyroddi hysbysiad am y bwriad i wneud hynny (“hysbysiad ymholiad”) i’r person a ddychwelodd y ffurflen dreth cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r dyddiad perthnasol.

(2) Y dyddiad perthnasol yw—

(a) os dychwelwyd y ffurflen dreth ar ôl y dyddiad ffeilio, y dyddiad y dychwelwyd y ffurflen dreth, neu

(b) fel arall, y dyddiad ffeilio,

ond os diwygir y ffurflen dreth o dan adran 41, y dyddiad perthnasol yw’r diwrnod y gwnaed y diwygiad.

(3) Ni chaiff ffurflen dreth a fu’n destun un hysbysiad o dan yr adran hon fod yn destun un arall, ac eithrio hysbysiad a ddyroddir o ganlyniad i ddiwygio’r ffurflen dreth o dan adran 41.

**44 Cwmpas ymholiad**

(1) Mae ymholiad i ffurflen dreth yn cwmpasu unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys yn y ffurflen dreth, neu y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y ffurflen dreth—

(a) sy'n ymwneud â'r cwestiwn pa un a yw'r dreth ddatganoledig y mae'r ffurflen dreth yn ymwneud â hi i'w chodi ar y person a ddychwelodd y ffurflen dreth, neu

(b) sy'n ymwneud â swm y dreth ddatganoledig sydd i'w godi ar y person a ddychwelodd y ffurflen dreth.

(2) Ond os dyroddir hysbysiad ymholiad o ganlyniad i ddiwygio ffurflen dreth o dan adran 41 ar ôl cwblhau ymholiad i'r ffurflen dreth, mae'r ymholiad wedi ei gyfyngu—

(a) i faterion y mae'r diwygiad yn ymwneud â hwy, a

(b) i faterion y mae'r diwygiad yn effeithio arnynt.